

2017 Rhif 13 (Cy.)

**DEDDF Y GWASANAETH
IECHYD GWLADOL (CYMRU)
2006**

Cyfarwyddydau Gwasanaethau
Meddygol Sylfaenol (Iechyd
Meddwl) (Gwasanaethau
Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd)
(Cymru) 2017

Gwnaed 11 Ebrill 2017

Yn dod i rym 12 Ebrill 2017

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45, 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1), ac ar ôl ymgynghori â'r cyrff yr ymddangosai iddynt hwy eu bod yn cynrychioli'r personau y mae'r Cyfarwyddydau hyn yn ymwneud â'u tâl, yn unol ag adran 45(4) o'r Ddeddf honno, yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Iechyd Meddwl) (Gwasanaethau Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2017.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 12 Ebrill 2017.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddydau hyn—

mae i “claf cofrestredig” yr un ystyr â “registered patient” yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd

Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004(1);

ystyr “contract GMS” (“*GMS contract*”) yw contract ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol rhwng contractwr GMS a Bwrdd Iechyd Lleol a wneir yn unol ag adran 42 o’r Ddeddf;

ystyr “contractwr GMS” (“*GMS contractor*”) yw person y mae Bwrdd Iechyd Lleol yn ymrwmo neu wedi ymrwmo i gontract GMS ag ef; ac

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Sefydlu Cynllun Iechyd Meddwl

3. Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol arfer ei swyddogaethau o dan adran 41 o’r Ddeddf (gwasanaethau meddygol sylfaenol) er mwyn darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol yn ei ardal, neu sicrhau bod y gwasanaethau hynny yn cael eu darparu yn ei ardal. Fel rhan o’i waith o gyflawni’r swyddogaethau hynny rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol sefydlu (os nad yw eisoes wedi gwneud hynny), gweithredu ac, fel y bo’n briodol, ddiwygio Cynllun Iechyd Meddwl ar gyfer ei ardal a chanddo’r diben sylfaenol o wella ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion ag anghenion iechyd meddwl drwy gydgyssylltu a rhannu gwybodaeth yn well.

Cynllun Iechyd Meddwl

4.—(1) Fel rhan o’i Gynllun Iechyd Meddwl, bob blwyddyn ariannol rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol gynnig ymrwmo i drefniadau â phob contractwr GMS yn ei ardal, a thrwy hynny roi cyfle rhesymol i’r contractwr GMS i gymryd rhan yn y Cynllun yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

(2) Rhaid i’r cynllun sy’n nodi’r trefniadau y mae Bwrdd Iechyd Lleol yn ymrwmo neu wedi ymrwmo iddynt â chontractwr GMS fel rhan o’i Gynllun Iechyd Meddwl, gynnwys—

- (a) gofyniad bod y contractwr GMS yn rhedeg sesiwn astudio flynyddol yn y practis ar addysg iechyd meddwl;
- (b) gofyniad bod y sesiwn astudio o leiaf ddwy awr o hyd;
- (c) gofyniad bod holl dîm y practis yn bresennol yn y sesiwn astudio, os nad ydynt yn gallu osgoi peidio â bod yn bresennol ar y diwrnod, er mwyn cyflawni rhai o’r amcanion

(1) O.S. 2004/478 (Cy. 48) fel y’i diwygiwyd.

allweddol yn y Strategaeth Iechyd Meddwl
“Law yn Llaw at Iechyd Meddwl”(1);

- (d) gofyniad bod y contractwr GMS yn dewis un pwnc hyfforddi bob blwyddyn o'r rhestr a ganlyn—
 - (i) hyfforddiant a arweinir gan ddefnyddwyr gwasanaethau ynghylch deall y profiad o fod â salwch meddwl o safbwynt defnyddiwr gwasanaethau;
 - (ii) cydafiacheddau iechyd meddwl ac iechyd corfforol; hybu iechyd a lleihau risgiau ac annhegwch mewn gofal sylfaenol;
 - (iii) gwneud diagnosis o iselder a'i reoli yn yr henoed;
 - (iv) deall anghenion iechyd meddwl pobl ifanc a llwybrau a chymorth lleol, gweithio gyda Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn lleol;
 - (v) anhwylderau bwyta yn ystod y glasgoed a'r blynyddoedd cynnar fel oedolyn;
 - (vi) adnabod a rheoli bygythiadau o hunanladdiad ac o hunan-niweidio;
 - (vii) adnabod dementia yn gynnar, ei reoli'n effeithiol, a chyngor a chymorth i bobl â dementia a'u gofalu;
 - (viii) deall pwysigrwydd gwneud diagnosis amserol o ddementia gan gynnwys gwneud penderfyniadau ymlaen llaw ac atwrneiaeth barhaus neu arhosol;
 - (ix) problemau iechyd meddwl amenedigol; a
 - (x) diwallu anghenion iechyd ffoaduriaid a cheiswyr lloches gan gynnwys anghenion iechyd meddwl;
- (e) gofyniad bod y contractwr GMS yn cadw cofnod o'r sesiynau hyfforddi, gan gynnwys manylion y rhai a fu'n bresennol, cynnwys y rhaglen, ystyriaeth o'r dysgu a gyflawnwyd a chymau gweithredu y cytunwyd arnynt;
- (f) gofyniad i roi'r cofnod ar gael i'r Bwrdd Iechyd Lleol ar gais; ac
- (g) trefniadau talu ar gyfer y contractwr GMS y mae rhaid iddynt ddarparu—
 - (i) y bydd contractwyr GMS yn gallu hawlio ffi o £101.72 fesul 1000 o gleifion cofrestredig, wedi ei thalgrynnu i lawr i'r bunt gyfan agosaf pan fo—
 - (aa) y contractwr GMS yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y cynllun, a

(1)<http://gov.wales/docs/dhss/publications/161010deliverycy.pdf>.

- (bb) tystiolaeth ddogfennol ar ffurf adroddiad, sy'n cadarnhau dyddiad y sesiynau hyfforddi, cynnwys y rhaglen, ystyriaeth o'r dysgu a gyflawnwyd ac unrhyw argymhellion ar gyfer gwella gwasanaethau, yn cael ei hanfon i'r Bwrdd Iechyd Lleol o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Mae angen i'r adroddiad gadarnhau hefyd fod 85% o'r tîm gofal sylfaenol, gan gynnwys staff clinigol, staff rheoli a staff gweinyddol, wedi cwblhau un o'r sesiynau hyfforddi yn y pynciau â blaenoriaeth,
- (ii) y bydd y taliad hwnnw yn daladwy ar y dyddiad cyntaf ar ôl i'r taliad gael ei awdurdodi y mae un o daliadau misol Swm Cyffredinol y contractwr GMS yn dod yn ddyledus; a
- (h) yr ymdrinnir ag unrhyw anghydfodau sy'n codi yn y ffordd ragnodedig. Dylai Byrddau Iechyd Lleol a chontractwyr GMS wneud pob ymdrech i ddatrys yr anghydfod yn lleol cyn ei gyflwyno'n ffurfiol drwy weithdrefn datrys anghydfodau'r GIG.

5. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol, pan fo'n angenrheidiol, amrywio contract GMS y contractwr GMS fel bod y cynllun yn rhan o gontract GMS y contractwr GMS a bod gofynion y cynllun yn amodau o'r contract GMS.

Diwygio Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Gwasanaethau Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2007


6. Mae Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Gwasanaethau Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2007⁽¹⁾ a ddaeth i rym ar 12 Rhagfyr 2007 wedi eu diwygio fel a ganlyn—

- (a) yng nghyfarwyddyd 3(1), hepgorer paragraff (f); a
- (b) hepgorer cyfarwyddyd 9.

⁽¹⁾ 2007 Rhif 53.

**Llofnodwyd gan y Dr Grant L. Duncan, Dirprwy
Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Sylfaenol, o dan
awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd,
Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru**

Dyddiad: 11 Ebrill 2017

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Grant L. Duncan', written in a cursive style.